**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 25ain o IONAWR , 2021**

**PRESENNOL**

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson,
Delyth Algieri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Anwen Jones, Cyng Austin Roberts

**CADARNHAU'R COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 30ain o Dachwedd, 2020.

**GOFYNION PRAESEPT 2021/22**

Trafodwyd y gyllideb a gofynion y praesept ar gyfer y flwyddyn 2021/22 a daeth aelodau o'r farn nad oes angen codi praesept am y flwyddyn 2021/22. Pasiwyd drwy godi dwylo i ofyn am y swm o £6,200 gan y Sir i'r flwyddyn 2021/22. Bydd y clerc yn cysylltu gyda'r Adran Gyllid y sir gyda'r wybodaeth.

**CERBYDAU YN PARCIO AM GYFNOD PARHAUS YN Y MAES PARCIO CEGIN WEN**

Derbyniwyd e-bost gan yr Adran Cyfreithwyr y sir gyda chyngor ynglŷn â sut i weithredu'r canllawiau ar gyfer cerbydau sydd yn parcio yn y maes parcio am gyfnod parhaus. Awgrymiad y sir oedd gosod arwydd i fyny gyda chyfarwyddiadau fod cerbydau ddim yn cael parcio yno dros nos. Pasiwyd i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r sir i holi am arwyddion.

**CYNNAL A CHADW MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN A MAES PARCIO CEGIN WEN, LLANDDOGED**

Yn dilyn y llythyr anfonwyd i Mr Elwyn Williams, TynGwern Uchaf, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged yn gofyn am bris amcangyfrif i gynnal a chadw'r safleoedd meysydd parcio Cegin Wen a Chadair Ifan Goch cafwyd cais ganddo am fwy o wybodaeth o faint o waith gynnal a chadw mewn blwyddyn y bydd angen ei gwblhau yn y meysydd parcio. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd gofyn am bris i gynnal a chadw'r safleoedd fel bo angen tua unwaith neu dwywaith y flwyddyn.

**COEDEN NADOLIG**

Diolchodd y Cadeirydd i Cyng. John Owen a Cyng. Alun Morris am drefnu'r goeden Nadolig ar gyfer y pentref yn Llanddoged eto eleni.

**CYNNAL A CHADW**

Materion Ffyrdd

1. Tyllau ar hyd ffordd Ffrith Isaf, Llanddoged hyd at Waen Oer.
2. Tyllau yn y ffordd i lawr o Bryn Morfydd hyd at Capel Salem Efail Uchaf, Llanddoged.
3. Dwr yn hel yn groesffordd Belmont a ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
4. Twll yn y ffordd wrth ymyl y 'manhole' ble mae'r arwydd 30mya ar ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
5. Ffos wedi blocio wrth y giât dim yn bell o'r arwydd 30mya Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
6. Tyllau yn y ffordd tu allan i Ysgol Gynradd Llanddoged, Ffordd Tyrpeg Uchaf.
7. Tyllau yn y ffordd Tyrpeg Uchaf o Penrhiw hyd at Llidiart y Mynydd, Llanddoged.
8. Angen glanhau'r man pasio ar allt Llidiart y Mynydd, ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged.
9. Twll yn y Ffordd ar y tro rhwng Rhiwlas a Bryn Saith ar ffordd Bryn Saith, Llanddoged.
10. Angen glanhau'r ffosydd dwr yn llifo lawr y ffordd o Tyn y Gwern Isaf at y Felin, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged.
11. Angen sweeper i lanhau'r ffordd o Tŷ'r Ysgol, Maenan i lawr at yr Abbey.

12. Angen glanhau'r ffosydd i lawr o Penllan, Ffordd Llanddoged hyd at Cae Brychiad.
13. Bocsys halen angen ei llenwi o gwmpas ardal Llanddoged a Maenan.

<u>Materion Llwybr Cyhoeddus</u>

1. Cwyn gan aelod o’r cyhoedd fod y gamfa wrth Coed Celyn, Ffordd Tyrpeg Uchaf yn anodd mynd trosodd (awgrym i newid y gamfa am gamfa grisiau).
2. Gamfa wed torri ac mewn cyflwr peryg iawn Llwybr Cyhoeddus tu ôl i Tyn y Gwern Isaf, Ffordd Bryn Saith, Llanddoged(y mater yma wedi cael ei basio ymlaen i’r Sir o’r blaen).

**<u>CYLLID</u>**

Cyfrif Cyfredol - £4,507.29 Cyfrif Cadw - £2,970.15

Arwyddwyd (Cadeirydd) …………………………… Dyddiad ……………………………………………………………………………….